**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 1af Medi, 2026 yn Ysgol Cribyn am 7.30pm.</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Cyng. Lynford Thomas (Cadeirydd), Dan Evans, Euros Davies, Alan Henson, Glyn Davies, Wendy Lloyd Lewis, Gerwyn Owen,

1. **YMDDIHEURIADAU:** Y Cyng. Hywel Ifans, Haf Hughes, Melinda Williams

2. **PERSONOL** Estynwyd cydymdeimlad â Dianne, Catrin ac Alaw, teulu y diweddar Gyng. Lyn Williams. Cynhaliwyd munud o dawelwch er cof am Lyn.

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL**

4. **CADARNHAU COFNODION 09/06/2026**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Henson a'u derbyn yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR.** Yn absendoldeb y Cyng**.** Ceris Jones ni dderbyniwyd adroddiad

7. **ADRODDIAD YR HEDDLU.** Ers ein cyfarfod diwethaf bu'r PC Liz Jenkins ar ymweliad â Dihewyd ac anfonwyd adroddiad am y materion a godwyd dros yr haf gan nodi bod ASBOS wedi eu gosod ar y teuluoedd bu'n achosi problemau yn Bryn Salem.

8. **CYLLID**

   a. Tâl y Clerc Mehefin, Gorffennaf ac Awst £240.14
   b. **Lloyds Banc : Ffioedd Cyfrif Cyfredol** 10/05/26 – 09/06/26 £4.25
   c. 10/06/26 – 09/07/26 £5.75
   d. 10/07/26 – 09/08/26 - £4.74
   e. **Lloyds Banc : Ffioedd Cyfri'r Cadeirydd**: 10/05/26 – 09/06/26 £4.25
   f. 10/06/26 – 09/07/26 £4.25
   g. 10/07/26 – 09/08/26 - £4.25
   h. Taliad i LHP – trosglywddo'r gwasanaeth Payroll wrth Antur Cymru £36 yn cynnwys VAT.
   i. Taliad i Archwilio Cymru £200 am Archwiliad 2024/25
   j. Ad-daliad Y Cyng. Melinda Williams am ganiau dŵr - £13.98
   k. £40 i Cadi & Grace – blodau i deulu'r Cyng. Lyn Williams
   l. Derbyniwyd taliad Praesept 2 – Gorffennaf 2026 - £3316.67
   m. Dosbarthwyd, trafodwyd a derbyniwyd y gyllideb hanner blwyddyn.

## 9. CYNLLUNIO

i. **A260376:** Plasnewydd Felinfach. Cefnogwyd y cais ar 6ed Gorffennaf, 2026. Fe wnaeth Y Cyngh. Haf Hughes ac Alan Henson ddatgan diddordeb trwy ebost.
ii. **A260406:** Rhiwonnen, Abermeurig. Cefnogwyd y cais ar 4ydd Awst, 2026.
iii. **A260431:** Temple Pan. Cefnogwyd y cais ar 17eg Awst.
iv. **A260440 –** West Coast Cleaning, Arwydd – Hafod Brynog Caravan Park. Trafodwyd a phenderfynwyd cefnogi'r cais gan ofyn a ydyw'n ofynnol i'r arwydd fod yn ddwyieithog.

## 10. CYFARFOD UN LLAIS CYMRU 6/7/2026

Nid oedd yn bosib i'r cynrychiolwyr fynychu'r cyfarfod hwn, Derbyniwyd cofnodion drafft,

## 11. CYFARFOD Â CHLERC CYNGOR CYMUNED LLANWNNEN

Ar y 26ain o Awst, trefnwyd cyfarfod rhwng Eleri, Clerc Llanfihangel Ystrad a Marian Jones, Clerc Llanwnnen. Trafodwyd nifer o faterion o ran trosglwyddo cyfrifoldebau a phenderfynwyd trefnu cyfarfod pellach gyda Gwyn Jones, Archwilydd Mewnol Llanfihangel Ystrad i drafod materion yn ymwneud â'r gyllideb.

## 12. AD-DREFNU FFINIAU

Anfonwyd llythyr at Sian Gwenllian y Gweinidog sydd a chyfrifoldeb dros Lywodraeth Leol. Yn yr ymateb nodwyd y pwntiau a godwyd a'i bod yn ddiolchgar am yr amser a gymerwyd i roi ein barn gerbron. Serch hynny nid oedd ganddi unrhyw beth pellach i'w ychwanegu o ran y sefyllfa. Yn dilyn derbyn llythyr gan Gymdeithas yr Iaith yn galw cyfarfod yn Neuadd Llwyncelyn ar yr 8fed o Fedi i drafod y newidiadau o safbwynt effaith ar y iaith, nodwyd bod y Cadeirydd, Y Cyngh. Melinda Williams a Hywel Ifans wedi cytuno i fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor Cymuned.

## 13. GOHEBIAETH

i. Llythyr o ddiolch wrth HUTS am y £50
ii. Llythyr o ddiolch wrth CFFI Ceredigion am y £100
iii. Llythyr Rhian am Dorri Porfa Cae Donci. Yn dilyn trafodaeth drylwyr **penderfynwyd** cefnogi cais Pwyllgor y Carnifal ac i gysylltu â'r Sir yn lle cynta i ofyn pe bai modd iddynt gwrdd â'r gost yn llawn. Yn dilyn cynnig gan y Cyng. Dan Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Glyn Davies, cafwyd pleidlais pe bai'r Cyngor Sir yn gwrthod talu y byddai'r Cyngor Cymuned yn rhoi rhodd o £100 i Bwyllgor Carnifal Felinfach ac er tegwch i'r ddwy gymuned arall o fewn yr etholaeth hefyd cynnig £100 yr un i Bwyllgor Carnifal Cribyn a Dihewyd tuag at gostau torri porfa. Yn dilyn y cynnig datganwyd diddordeb gan Y Cyng. Alan Henson ac Euros Davies (Cribyn) a Gerwyn Owen (Dihewyd). **Pasiwyd y cynnig**.

## 14. UNRHYW FATER ARALL

a. Tynwyd sylw gan y Cyng. Alan Henson bod y craciau ar Bont Glanafon Cribyn yn gwaethygu. **Penderfynwyd c**ysylltu â'r Cyngor Sir.
b. Nododd y Cyng. Euros Davies bod yr hewl rhwng Wernddu a Phensarnfach mewn cyflwr difrifol gyda tua o 15 o dyllau rhwng y ddau leoliad. **Penderfynwyd** Cysylltu â'r Cyngor Sir.
c. Mae arwyddion 20mya Dihewyd wedi cael difrod bwriadol ers tro a gofynnodd y Cyng. Gerwyn Owen am wybodaeth o ran eu hadfer. **Penderfynwyd** cysylltu â'r Sir.

## 15. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Hydref 13, Neuadd Felinfach